COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 27AIN O FEHEFIN 2022 YN YR CABAN-Y-PLWYF, YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL.
Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Bari Evans, Elfed Williams, Rhian Evans, Arwel Davies a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Dim

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim.

4. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
Adroddwyd y Clerc fod yna ddau ymgeisydd am y pum sedd wag ar y Cyngor, Sef Arwel Davies o Brion a Ian Evans o Ddinbych. Penderfynwyd yr aelodau presennol i gyfethol y ddau aelod newydd y Cyngor.
Mi fydd y Clerc yn cyhoeddi'r "Hysbysiad o Gyfethol" o'r tair sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor gyda'r dyddiad cau ar gyfer 24ain o Fehefin 2022.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 23aib o Fai 2022 yn gywir.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
A: Derbyniwyd adroddiad y Clerc ymateb Cyngor Sir Ddinbych:-
1: Cyflwr yr arwydd "No Dog Fouling" ar stad Pont-y-Bedol Llanrhaeadr - mi fydd y Cyngor Sir yn adnewyddu'r arwydd cyn gynted â phosib.
2. Gwely'r bont sydd yn mynd o dan y ffordd ar gyfer y King's Head yn Llanrhaeadr - mi fydd y cerrig o dan y bont yn cael ei chlirio cyn gynted â phosib.
3. Llun o'r ffordd wrth Y Lodge yn Llanrhaeadr sydd eisiau llinell ddwbl felyn. – dim ymateb ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.
B. Adroddwyd Arwel Davies fod adroddiad "Arolwg Ystlumod" yn dangos fod yna ystlumod yn y cyn adeilad Eglwys Prion ac felly mae'r perchennog yn torri'r gyfraith wrth fwrw ymlaen gyda'r datblygiad bob cais cynllunio.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.
Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Elfed Williams ei fod yn edrych am wybodaeth ychwanegol cyn rhoi'r newidiadau ar y panel wybodaeth a fydd rhaid cal yr hawlfraint cynllunio cyn ei ail osod ar y "Llwybr Cyhoeddus" Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr.

8. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.
Dim adroddiad newydd ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

9. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.
Dîm adroddiad newydd ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

10. HYSBYSFWRDD SARON.
Dim adroddiad newydd ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

11. MATERION CYLLID.
A: Datganiad banc £13,979.00.
B. Taliadau:-
1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2022 – £502.10.
2. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2022 - £125.40.
3. Ffi fisol HSBC £5.00.

12. MATERION CYNLLUNIO.
Mae'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu Cais Cynllunio23/2022/0255 - Codi adeiladau allan mewn ysgolion a gwaith cysylltiedig yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

13. GOHEBIAETH.
Dim yn codi.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Elfed Williams:-
A: Wedi cael cyfarfod safle gyda Tim Towers o'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych I glustnodi'r ffyrdd angen gwariant ddatblygu ar brys.
B. Wedi clustnodi safle blodau gwyllt wrth stad Maes-y-Felin yn Llanrhaeadr.

15. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
A: Penderfynwyd y Clerc gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol_
1. Eisiau biniau ysbwriel (yn cynnwys baw Cwn) yn yr hen lan yn Llanrhaeadr wrth yr Eglwys.
2. Ymholiad os mae'r safle hyfforddiant safle "Shorecliffe" wedi eu hestynni heb ganiatâd ym Mhrion.
B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc atgoffa Mr Rob Sheppard, perchenog Sheppard Homes i'w atgoffa fod y Cwmni wedi cytuno prynu arwydd newydd Pentre' Llanrhaeadr wrth y datblygiad newydd ym Mhentre' Llanrhaeadr.

16. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 25AIN O ORFFENNAF 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH.